

**2013 Rhif 25 (Cy.25)**

**DEDDF Y GWASANAETH  
IECHYD GWLADOL (CYMRU)  
2006**

Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth  
Iechyd Gwladol (Ad-dalu Cost  
Triniaeth AEE) (Cymru) (Diwygio)  
2013

*Gwnaed* 2013

*Yn dod i rym* 25 Hydref 2013

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 12(1)(b), 12(3), 203(9) a (10) a 204 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddiadau a ganlyn—

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddiadau hyn yw Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru) (Diwygio) 2013.

(2) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 25 Hydref 2013.

(3) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd  
Gwladol (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru)  
2010**

2. Mae Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ad-dalu Cost Triniaeth AEE) (Cymru) 2010(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yng nghyfarwyddyd 1(3)(a) (Enwi, cychwyn a chymhwyso) ar ôl y geiriau “adran 6A (ad-dalu cost gwasanaethau a ddarparwyd mewn

---

(1) 2006 p.42.

(2) 2010 Rhif. 40 (Cy.40).

Gwladwriaeth EEA arall) o Ddeddf y GIG (Cymru)” mewnosoder y geiriau “ac adran 6BA(1) (ad-dalu cost gwasanaethau a ddarparwyd mewn Gwladwriaeth EEA arall pan fo gwariant wedi ei wneud ar neu ar ôl 25 Hydref 2013) o Ddeddf y GIG (Cymru)”;

(b) yng nghyfarwyddyd 1(3)(b) (Enwi, cychwyn a chymhwysu) ar ôl y geiriau “o dan adran 6B (awdurdodiad ymlaen llaw at ddibenion adran 6A) o Ddeddf y GIG (Cymru)” mewnosoder y geiriau “ac adran 6BB(2) (awdurdodiad ymlaen llaw at ddibenion adran 6A) o Ddeddf y GIG (Cymru)”;

(c) yng nghyfarwyddyd 2 (Dehongli) mewnosoder yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor—

ystyr “y Gyfarwyddeb” (“*the Directive*”) yw Cyfarwyddeb 2011/24/EU Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 9 Mawrth 2011 ar gymhwyso hawliau cleifion mewn perthynas â gofal iechyd trawsffiniol(3);”

(d) yng nghyfarwyddyd 3(1) (Arfer swyddogaethau o dan adrannau 6A a 6B o Ddeddf y GIG (Cymru)) ar ôl y geiriau “adran 6A (ad-dalu cost gwasanaethau a ddarparwyd mewn Gwladwriaeth EEA arall) o Ddeddf y GIG (Cymru)” mewnosoder y geiriau “ac adran 6BA (ad-dalu cost gwasanaethau a ddarparwyd mewn Gwladwriaeth EEA arall pan fo gwariant wedi ei wneud ar neu ar ôl 25 Hydref 2013) o Ddeddf y GIG (Cymru),”;

(e) yng nghyfarwyddyd 3(2) (Arfer swyddogaethau o dan adrannau 6A a 6B o Ddeddf y GIG (Cymru)) ar ôl y geiriau “adran 6B (awdurdodiad ymlaen llaw at ddibenion adran 6A) o Ddeddf y GIG (Cymru)” mewnosoder y geiriau “ac adran 6BB (awdurdodiad ymlaen llaw at ddibenion adran 6BA) o Ddeddf y GIG (Cymru),”;

(f) yng nghyfarwyddyd 4(1) (Dyletswydd i ad-dalu) ar ôl y geiriau “o dan adran 6A” mewnosoder y geiriau “neu 6BA”;

(g) yng nghyfarwyddyd 5(2) (Amser ar gyfer penderfynu cais am ad-daliad) yn lle’r geiriau “o fewn 20 o ddiwrnodau gwaith” rhodder “o fewn 10 diwrnod gwaith”;

---

(1) Mewnosodwyd adran 6BA yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan O.S. 2013/2269.  
(2) Mewnosodwyd adran 6BB yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan O.S. 2013/2269.  
(3) O.J. Rhif L88, 4.4.2011, t.45

- (h) yng nghyfarwyddyd 7(1) (Dyletswydd i benderfynu ceisiadau am awdurdodiad ymlaen llaw) ar ôl y geiriau “adran 6B” mewnosoder y geiriau “neu 6BB”;
- (i) yng nghyfarwyddyd 10 (Dyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am wasanaethau arbennig yn ddarostyngedig i awdurdodiad ymlaen llaw)—
  - (i) cyn y geiriau “Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol gyhoeddi gwybodaeth” mewnosoder y geiriau “Ar gyfer gwariant a wneir gan berson cyn 25 Hydref 2013 neu ar gyfer gwariant a wneir yng Ngwlad yr Iâ, Lichtenstein neu Norwy cyn bod Cyfarwyddeb 2011/24/EU Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 9 Mawrth 2011 ar gymhwyso hawliau cleifion mewn gofal iechyd trawsffiniol(1) yn gymwys i’r gwladwriaethau hynny yn unol â Chytundeb yr AEE,” ac
  - (ii) yn lle’r gair “Rhaid” rhodder “rhaid”;
- (j) yng nghyfarwyddyd 11(a) (Dyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth am weithdrefnau ar gyfer ad-daliad ac awdurdodiad ymlaen llaw) yn lle’r geiriau “ad-daliad o dan adran 6A o Ddeddf y GIG (Cymru) ac am awdurdodiad ymlaen llaw o dan adran 6B o Ddeddf y GIG (Cymru)” rhodder “ad-daliad o dan adran 6A neu 6BA o Ddeddf y GIG (Cymru) ac awdurdodiad ymlaen llaw o dan adran 6B neu 6BB o Ddeddf y GIG (Cymru)”;
- (k) yn lle cyfarwyddyd 13 (Cyngor a chymorth), rhodder—

“13. Pan fo’r Gyfarwyddeb yn gymwys, mae cyngor a chymorth o’r fath i’w ddarparu yn unol â darpariaethau cyfarwyddyd 6 o Gyfarwyddiadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol) (Cymru) 2013(2) a, phan nad yw’r Gyfarwyddeb yn gymwys, mae cyngor a chymorth o’r fath i fod yn gyfyngedig i ganllawiau ynghylch y gweithdrefnau i’w dilyn ac, yn y naill achos neu’r llall, nid yw i gynnwys cyngor cyfreithiol neu feddygol.”.

---

(1) OJ Rhif L88, 4.4.2011, t.45.

(2) 2013 Rhif 26.

Llofnodwyd gan Kevin Flynn, Cyfarwyddwr  
Cyflenwi, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a  
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion  
Cymru

Dyddiad  
24 Hydref 2013

